

# wavehill™

social and economic research  
ymchwil cymdeithasol ac economaidd

---

## Gwerthusiad o Ymateb Cyllidwyr Cymru i'r Argyfwng Covid-19

### Crynodeb Gweithredol

Mehefin 2021



## Wavehill: ymchwil cymdeithasol ac economaidd

- Swyddfa Cymru: 21 Alban Square, Aberaeron, Ceredigion, SA46 0DB (swyddfa gofrestredig)
- Swyddfa Gorllewin Lloegr: 2–4 Park Street, Bryste, BS1 5HS
- Swyddfa Gogledd Lloegr: Milburn House, Dean Street, Newcastle, NE1 1LF
- Swyddfa Llundain: 52 Cecile Park, Crouch End, Llundain, N8 9AS

Manylion cysylltu:

Ffôn: 01545 571711

E-bost: [wavehill@wavehill.com](mailto:wavehill@wavehill.com)

Twitter: @wavehilltweets

Rhagor o wybodaeth:

[www.wavehill.com](http://www.wavehill.com)

<https://twitter.com/wavehilltweets>

© Wavehill: ymchwil cymdeithasol ac economaidd.

Mae'r adroddiad hwn yn atebol i hawlfraint. Dylid cydnabod awduron yr adroddiad (Wavehill: ymchwil cymdeithasol ac economaidd) mewn unrhyw gyfeiriad a wneir at ei gynnwys.

Awduron yr adroddiad:

Eva Trier, Andy Parkinson

Dylid cyfeirio unrhyw gwestiynau am yr adroddiad hwn yn y lle cyntaf i Andy Parkinson ([andy.parkinson@wavehill.com](mailto:andy.parkinson@wavehill.com))

Dyddiad y ddogfen: 21/06/2021

Fersiwn: Terfynol

Cyswllt i gleientiaid:

Alison Pritchard | Ff: 02920 435763 | E: [apritchard@wcva.cymru](mailto:apritchard@wcva.cymru)

# Crynodeb Gweithredol

## Cyflwyniad

Yn ystod 2020, bu arianwyr yng Nghymru'n cydweithio mewn ffyrdd newydd er mwyn sicrhau bod sefydliadau gwirfoddol ledled Cymru'n gallu cyrchu arian ymateb priodol i ateb eu hanghenion mewn argyfwng. Roedd Fforwm Cyllidwyr Cymru (WFF) yn rhannu data fwy nag erioed o'r blaen, a Llywodraeth Cymru, CGGC, Sefydliad Cymunedol Cymru (CFW), Cronfa Gymuned y Loteri Genedlaethol (Cymru) (NLCF), a'r Sefydliad Moondance wedi cydweithio'n strategol.

## Y cefndir a'r cyd-destun

Yn wythnosau cyntaf y pandemig Covid-19, bu cynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru, CGGC, CFW, NLCF, Sefydliad Lloyds Bank, Sefydliad Moondance a Chadeirydd yr WFF yn cyfarfod yn wythnosol i gytuno ar flaenoriaethau ar gyfer y cyllid ymateb mewn argyfwng i'r trydydd sector yng Nghymru. Yr hyn a ddatblygodd o waith y WFF oedd ymrwymiad ar y cyd rhwng pedwar o'r cyllidwyr (CGGC ar ran Llywodraeth Cymru, NLCF, CFW a Moondance) i sicrhau ymateb i'r argyfwng Covid-19 a oedd yn gynhwysfawr ac yn gyson. Mewn gwirionedd, roedd hyn yn golygu bod y cyllidwyr yn ymrwymo i sicrhau y gallai'r trydydd sector eang gyrchu wyth cronfa ymateb mewn argyfwng drwy gydlyn eu rhaglenni ariannu fel y byddai pob cronfa unigol yn ateb anghenion gwahanol fathau o sefydliadau trydydd sector. Mae'r dadansoddiad o'r data am grantiau sydd o fewn y plattform Giving 360 yn dangos yn amlwg iawn bod yr wyth cronfa yma'n darparu'r meintiau mwyaf o bell ffordd o gyllid ymateb mewn argyfwng yng Nghymru.

Ym mis Hydref 2020, gwnaeth Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau Llywodraeth Cymru archwiliad i Covid-19 a'i effaith ar y trydydd sector yng Nghymru. Canfu'r archwiliad bod y sector wedi chwarae rôl hanfodol o ran cefnogi cymunedau yng Nghymru drwy gydol yr argyfwng Covid-19. Roedd sefydliadau trydydd sector yn gyflym iawn yn addasu gan ailbennu eu gwasanaethau, gweithdrefnau a blaenoriaethau. Mae ateb y galw cynyddol am wasanaethau cefnogi trydydd sector wedi cynyddu sylfaen gostau'r sector hefyd. Talwyd costau pellach i addasu ac ailbennu gwasanaethau, i ddatblygu gweithdrefnau gweithio diogel, i ddiheintio, i brynu cyfarpar diogelu personol, ac hefyd i dalu'r costau sy'n gysylltiedig â symud i wasanaeth ar-lein. Roedd hyn oll ar sylfaen o ostyngiad mewn incwm, llai o godi arian a gohirio rhywfaint o'r cymorth cyllido grant cyfredol.

## Mapio dyraniadau cyllido

### Y darlun byd-eang

Roedd yr wyth cronfa'n cynnig graddfa symudol o ran llwyddiant y ceisiadau. Mae'n ymddangos bod y trothwyon mynediad a adlewyrchwyd yn briodol ar gyfer natur a ffynhonnell berthnasol y cyllido oedd yn cael ei weinyddu. Mae'r cyllido wedi darparu cynnig ariannu cyflenwol sy'n addas ar gyfer ystod eang o sefydliadau a chanddynt wahanol broffiliau, yn cynnwys grwpiau a sefydliadau oedd heb wneud cais am gyllid cyn y pandemig.

### Yr ardaloedd daearyddol perthnasol

Yn gyffredinol, mae'n ymddangos bod cydberthynas gyson rhwng y canran o grantiau a maint y cyllid a sicrhawyd fesul ardal awdurdod lleol. Mae'r estyniad, yn nhermau'r canran o sefydliadau trydydd sector a elwodd o gyllido ymhob ardal awdurdod lleol, rhwng wyth y cant ac 16 y cant.

### Y meysydd thematig dan sylw

Iechyd, gofal cymdeithasol a lles a chymuned yw'r meysydd thematig a elwodd o'r meintiau mwyaf o arian. Mae amrywiaeth o sefydliadau, sy'n canolbwyntio ar wahanol broffiliau budd, wedi elwa o'r hyn sy'n ymddangos yn gyfran briodol o'r cyllido o dan yr wyth cynllun grant.

Mae meysydd thematig fel iechyd meddwl, dosbarthiad bwyd, trais domestig neu ddiartrefedd yn debygol o fod yn rhan o brosiectau cyfannol mwy. Mae plant a theuluoedd, addysg a hyfforddiant, iechyd a gofal cymdeithasol, ieuenctid, pobl hŷn, anabledd a chyngor ac eiriolaeth yn amlwg yn feysydd sydd wedi elwa o lefelau llawer uwch o arian nag a fyddai wedi mynd iddyn nhw dim ond ar sail eu cyfran yn y trydydd sector cyffredinol yng Nghymru.

Mae'r meysydd a nodwyd yn eang fel y rhai oedd angen y sylw mwyaf yn amlwg yn rhai oedd wedi elwa am eu bod wedi derbyn llawer iawn mwy o arian na'r swm a fyddai wedi cyfateb â'u cyfran yn y boblogaeth: mae lleiafrifoedd ethnig ac iechyd meddwl yn feysydd arbennig o amlwg yn y cyswllt hwn, ond roedd tai a chyflogaeth wedi derbyn cyfran uwch o'r arian hefyd o gael eu hystyried yn y termau hynny.

### Proffil y sefydliadau a gyrhaeddwyd

Roedd gan y mwyafrif o sefydliadau trydydd sector oedd wedi elwa o'r cyllido lai na 10 aelod o staff ac roedden nhw'n sefydliadau micro a bach. Roedd y mwyafrif o'r bobl a dderbyniodd grantiau'n elusennau cofrestredig. Byddai proffil yr ymatebwyr yn nhermau'r strwythurau cyfreithiol yn awgrymu bod nifer sylweddol o'r sefydliadau buddiolwyr yn cynnwys elfen o fenter gymdeithasol yn rhan o'r model sefydliadol a fabwysiadwyd ganddynt.

Roedd grwpiau cyfansoddiadol/sefydliadau heb eu corfforaethu yn cyfrif am chwech y cant o ymatebwyr yr arolwg, sy'n awgrymu bod rhai o'r sefydliadau cymunedol bach a gychwynnodd ddarparu gwasanaethau mewn ymateb i'r argyfwng Covid-19 wedi elwa o'r cyllido a oedd ar gael o dan yr wyth cynllun grant hefyd. Mae dadansoddiad y data am ffyrlo yn awgrymu bod yr arian wedi llwyddo i gyrraedd mudiadau trydydd sector yr oedd eu gwasanaethau wedi eu torri gan y pandemig ac sy'n debygol o fod wedi eu cael eu hunain mewn sefyllfa ariannol ddigon simsan.

## Safbwyntiau'r derbynwyr grantiau

### Bodddhad gyda'r prosesau grant

Dywedodd y rhan fwyaf o ymatebwyr eu bod wedi'i gael yn hawdd cael gafael ar wybodaeth ar draws yr ystod gyfan o agweddau gwahanol. Efallai y byddai sefydliadau yng Nghaerdydd, Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro wedi ei chael ychydig yn anoddach cael gwybodaeth am yr arian oedd ar gael.

Roedd y cyfraddau bodddhad gyda'r prosesau grant yn uchel ar gyfer y broses ymgeisio (90 y cant) a'r prosesau monitro a rheoli grantiau (86 y cant). Roedd bodddhad gyda'r prosesau grant ychydig bach yn uwch hyd yn oed i sefydliadau oedd heb wneud cais am gyllid grant cyn hynny. Mae'n ymddangos bod gwahaniaethau ym mha mor hawdd oedd hi i wneud cais yn unol â grwpiau targed a gwerthoedd grant y gwahanol gronfeydd. Pan oedd prosesau ymgeisio'n fwy trwyadl, soniodd y rhai a gyfwelwyd bod cefnogaeth ar gael. Roedden nhw'n tueddu i ystyried bod y cydbwysedd rhwng bod yn drwyadl a gwneud penderfyniadau'n gyflym, sef ystyriaeth allweddol i gronfeydd trydydd sector yn y sefyllfa argyfyngus hon, yn rhai priodol.

### Yr angen am gyllido a'r canlyniadau a gafwyd

I oddeutu hanner yr ymatebwyr, roedd helpu gyda goroesiad sefydliadau ac ehangu neu deilwra'r ddarpariaeth gwasanaeth i ymdrin â'r galw ychwanegol a achoswyd gan Covid-19 oll yn rhan o'r rheswm dros wneud cais am arian drwy'r wyth cronfa. I'r sefydliadau oedd â staff ar ffyrlo, mae'n debyg bod cymorth gyda goroesiad y sefydliad yn arbennig o amlwg fel rheswm dros wneud cais am gymorth.

Roedd cynnal darpariaeth gwasanaethau ar lefelau cyn-Covid 19 a thalu costau Covid-19 yn berthnasol i oddeutu un rhan o dair o'r ymatebwyr ymhob achos. Mae'r gwrthwyneb yn wir ar gyfer ehangu neu deilwra darpariaeth y gwasanaeth i ymdrin â'r galw ychwanegol, a welwyd gan 61 y cant o sefydliadau heb unrhyw staff ar ffyrlo a 42 y cant o'r rheiny oedd â staff ar ffyrlo.

Adroddodd 83 y cant o ymatebwyr yr arolwg oedd yn gweithio gyda chymunedau BAME a 72 y cant o'r ymatebwyr oedd yn gweithio gyda dioddefwyr Trais Domestig bod ganddynt angen arbennig i ehangu neu deilwra'r ddarpariaeth gwasanaethau i ymdrin â'r galw ychwanegol a achoswyd gan y pandemig. Roedd gan sefydliadau oedd yn canolbwyntio ar yr iaith Gymraeg angen ychydig bach uwch am arian i gefnogi ehangiad eu gwasanaethau i mewn i ardaloedd daearyddol newydd a chefnogi datblygiad sefydliadol.

O ystyried y patrymau mewn perthynas â meysydd thematig, dywedodd ymatebwyr yr arolwg oedd yn eu hystyried eu hunain yn sefydliadau cymunedol (63 y cant) ac yn sefydliadau gwirfoddol (61 y cant) bod ychydig bach mwy o angen am gymorth gyda goroesiad y sefydliad nac eraill oedd yn gyfatebol mewn meysydd thematig eraill. Mae'n ymddangos bod sefydliadau addysg a hyfforddiant wedi bod ychydig bach yn fwy cadarn i gychwyn, gan geisio cymorth ar gyfer un neu fwy o'r heriau oedd wedi eu henwi yn yr arolwg. Roedd sefydliadau oedd yn canolbwyntio ar ddosbarthiad bwyd (65 y cant) ac iechyd a gofal cymdeithasol a lles (65 y cant) wedi sôn am angen ychydig bach uwch na'r ddau grŵp arall i ehangu neu deilwra eu darpariaeth gwasanaeth i ymdrin â'r galw ychwanegol.

### **Effeithiau'r cyllido ar sefydliadau sy'n derbyn grantiau**

O'i gymharu â'r gyfran o sefydliadau oedd wedi mynd ati'n amlwg i geisio'r arian i gefnogi goroesiad sefydliadol, dywedodd nifer hyd yn oed yn uwch ei fod wedi eu helpu yn y cyswllt hwnnw (82 y cant o'i gymharu â 52 y cant). Yn yr un modd, canfuwyd bod cymorth i ehangu neu deilwra'r ddarpariaeth gwasanaethau'n bwysicach na'r disgwyl (82 y cant o'i gymharu â 51 y cant) ac roedd yr un peth yn wir am dalu costau Covid-19 (76 y cant o'i gymharu â 34 y cant). Nid oedd unrhyw wahaniaethau amlwg rhwng sefydliadau o wahanol faint o ran agweddau oedd yn ymwneud yn uniongyrchol â darparu gwasanaethau o dan amodau Covid-19. Mae'n ymddangos bod maint sefydliadau wedi effeithio ar y graddau yr oedd y cyllido wedi sicrhau canlyniadau mewn perthynas â goroesiad y sefydliad, creu cyfleoedd newydd i gynhyrchu incwm a datblygiad y sefydliad.

### **Y canlyniadau i gymunedau**

Mae modd adnabod pedwar prif grŵp o effeithiau o'r ymatebion i'r arolwg. Gwelwyd yn glir bod sicrhau gweithredoedd sefydliadau (gallu parhau i ddarparu gwasanaethau priodol, talu costau craidd, recriwtio staff a gwirfoddolwyr ychwanegol a phrynu offer ac adnoddau priodol) yn symbol o gyflawniad i gymunedau.

Nodwyd nifer o gyflawniadau allweddol i'r cymunedau eu hunain, er enghraifft cefnogi'r rhai mwyaf agored i niwed, darparu bwyd, iechyd meddwl ac atal ynysu. Ystyriwyd bod yr arian sydd ar gael drwy'r wyth cronfa'n addas i anghenion y sefydliad, oherwydd y dull hyblyg a fabwysiadwyd, a faint o arian oedd ar gael.

### **Effeithiau unigolion**

Gellir disgwyl i ymgysylltiad parhaus â grwpiau targed allweddol fod wedi gostwng y tebygolrwydd y byddai llawer o fuddiolwr yn teimlo'n unig, pryderus ac wedi eu hynysu. Mae iechyd meddwl, ymdrin â chaledi dwys sy'n codi o'r pandemig, neu sydd wedi ei waethygu gan y pandemig, a chefnogi plant a theuluoedd, oll i'w gweld yn feysydd allweddol amlwg i sefydliadau trydydd sector.

Mae cyrraedd unigolion oedd wedi disgyn drwy rwydi gwasanaethau cymorth eraill yn agwedd a gafodd ei nodi'n benodol. Er eu bod yn darparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc, mae'r cyfnod clo wedi gofyn eu bod nhw'n darparu cymorth i rieni ac unedau teulu ehangach.

## Cefnogi gwydnwch a goroesiad

Mae'n ymddangos bod cyllido wedi gwella gwydnwch y sefydliadau sy'n derbyn grantiau a hynny drwy'r pandemig ac wrth symud ymlaen. Roedd cadw staff oedd yn hanfodol ar gyfer datblygu a darparu trefniadau wrth gefn sefydliadau a gallu recriwtio a gweithio'n effeithiol gyda gwirfoddolwyr, yn rhan allweddol o'r broses.

Heb y cyllido, ni fyddai gwasanaethau wedi parhau yn yr un ffordd i'r rhan fwyaf o'r sefydliadau a gafodd eu cyfweld. Roedd addasu gwasanaethau – yn weithredol ac mewn ymateb i'r problemau a gododd i'r grwpiau targed allweddol – ac ateb y galw cynyddol yn heriau allweddol. Mae'n ymddangos bod addasu gwasanaethau'n ymatebion arloesol yn aml iawn y mae sefydliadau'n debygol o'u cadw ar ôl i gam dwys y pandemig ddod i ben.

## Sylwadau am gydweithrediad cyllidwyr

Cafwyd sylwadau cymysg gan y rhai a gyfwelwyd am ddull o gyllido oedd wedi'i dargedu i raddau uwch. Yr ofn oedd y byddai hyn mewn gwirionedd yn gyfystyr â thynhau meini prawf ariannu, a fyddai'n gadael rhai sefydliadau heb gyfleoedd i gael gafael ar y cyllido. Yn yr un modd, roedd y farn yn parhau bod angen i'r anghenion hyn gael eu haddasu i amcanion penodol a grwpiau targed cronfeydd unigol yn hytrach na chael prosesau ymgeisio oedd yr un fath i bawb.

Ar y cyfan, roedd y rhai a gyfwelwyd yn cytuno y byddai diwydrwydd dyladwy ar y cyd o fudd oherwydd byddai'n cyflymu'r broses o wneud penderfyniad. Fodd bynnag, byddai gwahanol lefelau a mathau o gyllido'n dal i ofyn am lefelau amrywiol o dystiolaeth.

## Safbwyntiau rhanddeiliaid

Roedd yr holl ymatebwyr yn ystyried bod y pandemig yn her ddigynsail i'r trydydd sector yng Nghymru oedd yn gofyn ymateb ariannu i gynnal y sector. Roedd hyn yn gofyn cael ffyrdd newydd o weithio i ymateb i raddfa ac argyfwng y sialens.

Cadarnhaodd y mwyafrif o gyllidwyr a gyfwelwyd bod angen datblygu a chytuno ar y blaenoriaethau ar gyfer cyllido ymatebol mewn argyfwng yng Nghymru. Ystyriwyd bod dull wedi'i gydlynu nid yn unig yn 'cyfuno' symiau sylweddol o gyllid yn anffurfiol, ond hefyd yn helpu i integreiddio'r seilwaith cymorth ar y lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol.

Ystyriwyd bod y berthynas bresennol rhwng y pedwar cyllidwr a bodolaeth y corff ehangach, Fforwm Cyllidwyr Cymru, yn alluogwyr allweddol. Ystyriwyd mai'r prif ffactor oedd yn eu rhwystro oedd diffyg amser i ddefnyddio arferion gorau ar gyfer cydweithio neu i edrych ar ddulliau eraill, wedi eu cyfuno ag amharoddrwydd cyffredinol ariannwyr i ildio rheolaeth.

## **Datblygu ymateb wedi'i gydlynu**

Roedd y broses o ddatblygu dull y cyllidwyr o ymateb yn gydlynol yn digwydd ochr yn ochr â'r gwaith arwyddocaol ymhob sefydliad cyllido i baratoi eu hymateb ariannu, ac roedd hyn yn parhau i fod yn gysylltiedig â Fforwm Cyllidwyr Cymru. Roedd y pedwar cyllidwr yn croesawu'r cyfle i weithio'n agosach yn ystod y pandemig.

Nid oedd tynnu'r pedwar cyllidwr at ei gilydd wedi achosi 'cynllun cydweithredol ffurfiol', ond roedd egwyddorion clir yn arwain ymateb y pedwar cyllidwr. Roedd y pum prif fecanwaith neu drosol i sicrhau bod y cydweithredu'n effeithiol yn cynnwys cyfarfodydd rheolaidd a rhannu gwybodaeth, taenlen wedi'i rhannu, egluro'r dirwedd gyllid ehangach, adeiladu perthnasoedd ac ymddiriedaeth, a'r buddion uniongyrchol i bawb a ddatblygodd drwy'r cydweithredu. Ystyriwyd bod y pedwar cyllidwr yn darparu 'synnwyr o arweiniad' yn ystod camau cynnar a phryderus y pandemig.

## **Darparu ymateb cyllido ar y cyd**

Nododd y cyllidwyr i gyd bod graddfa sylweddol o'r cyllido oedd ar gael yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer y cyllido ymatebol. Roedd hyn yn cynnwys ail gyfran sylweddol o arian ar gyfer y cam adferiad. Hefyd, roedd yr arian ymateb yn weithredol yn rhyfeddol o gyflym, dyna gyflawniad allweddol o ystyried bod y sefyllfa mor argyfyngus.

Ystyriwyd amrywiaeth a ffocws amrywiol yr wyth cronfa yn gryfder allweddol a arweiniodd at 'gyfatebiaeth' dda yn y pen draw rhwng y cronfeydd, gan osgoi dyblygiad a sicrhau bod pob cronfa'n ychwanegu gwerth i'r cynnig yn gyffredinol. Roedd y cyllidwyr yn cytuno ar y cyfan bod llai o dargedu strategol at grwpiau daearyddol neu thematig penodol, er bod trafodaeth barhaus am grwpiau a allai lithro drwy'r rhwyd wedi cynhyrchu ymwybyddiaeth well, yn enwedig wrth i'r effeithiau anghyfartal ar grwpiau penodol ddod yn amlwg. I'r mwyafrif o'r cronfeydd, roedd darparu cyllido craidd yn gwahaniaethu'n arwyddocaol oddi wrth y ffordd arferol o wneud pethau. Roedd ymrwymiad cyffredinol i weithio gyda'r ymgeiswyr ac amrywio'r dull/cynnig er mwyn sicrhau cynaliadwyedd yn dangos ymrwymiad ehangach i weithio mewn ffordd a arweinir gan anghenion.

Roedd ariannu ychwanegol wedi'i dargedu i ateb amcanion penodol y tu allan i'r wyth cronfa ymateb, yn rhan o'r cynnig. Er gwaethaf gostyngiad yn yr amser i ddyfarnu, roedd y cyllidwyr a gyfwelwyd yn teimlo eu bod wedi cyflawni lefelau da o wiriad / graffu. Ystyriwyd y dull graddol oedd wedi ei siapio o amgylch ymdrin ag anghenion cyllido tymor uniongyrchol a chanolog (argyfwng) a thymor hwy (adferiad) y sector, yn gryfder allweddol. Teimlwyd bod y gwaith hyrwyddo wedi ei wella gan y ffaith bod y mwyafrif o'r cyllidwyr yn adnabyddus iawn yn barod drwy'r sector i gyd.

Er bod rhai pryderon wedi codi ynglŷn â rhoi gormod o ffocws ar gyllido Covid-19, a bod rhai cyllidwyr yn cytuno'n gryf â'r ymrwymiad pendant i ddarparu cyllid i 'gadw busnes yn mynd fel o'r blaen', ystyriwyd bod y cyllido ymatebol yn llenwi bwlch oedd wedi agor oherwydd diffyg mewn rhan o'r cyllido oedd ar gael ynghynt.



## Effeithiolrwydd ymateb y cyllidwyr

Roedd y sylwadau am effeithiolrwydd y cyllid ymateb yn gyffredinol gadarnhaol, ond nid oeddent wedi gweld ei lwyddiant pennaf eto. Mae'r dadansoddiad data a gyflwynir mewn rhannau eraill o'r adroddiad gwerthuso llawn yn dangos bod y perfformiad mewn perthynas â chyfraddau goroesiad a chynaliadwyedd sefydliadau trydydd sector yn gyffredinol gryf. Argraff y cyllidwyr oedd bod yr ymateb yng Nghymru wedi bod yn well ar y cyfan nag yn Lloegr ac ystyriwyd mai'r rheswm am hyn oedd Fforwm Cyllidwyr Cymru a'r seilwaith ehangach oedd ar waith.

Ystyriwyd bod rhai o'r ffyrdd yr oedd cyllid wedi cyrraedd y grwpiau targed hynny oedd efallai'n ei chael hi'n anodd cyrchu cyllid, yn amlygu manteision posibl y gwaith partneriaeth arloesol ar y lefel fwyaf lleol.

## Problemau yn y dyfodol

Roedd y rhai a gyfwelwyd yn hynod o gadarnhaol am y cyllido ymatebol yng Nghymru a'r dull 'cronfeydd niferus, cyllidwyr niferus' a fabwysiadwyd gan CGGC, NLCF, CFW a'r Sefydliad Moondance. Ystyriwyd bod hon yn sylfaen dda ar gyfer adolygu elfennau o'r dull ariannu cyffredinol yn dilyn y pandemig. Roedd nifer yn ystyried bod y ffocws parhaus ar oroesiad sefydliadol yn y sector yn elfen allweddol. Ochr yn ochr â hyn, y materion pellach y tynnwyd sylw atynt ar gyfer y dyfodol oedd ffocws ar gadw gwirfoddolwyr, cydnabod gor-flino posibl ymysg y staff, cefnogi carfan fawr o sefydliadau anghorfforedig i ystyried modelau mwy gwydn ac ymdrin â phryder yn y sector o ganlyniad i doriadau disgwylidig mewn cyllido.

Gyda disgwyliadau realistig yn ymwneud â chydweithredu, ystyriwyd mai mwy o gydweithredu yn hytrach na llai ohono oedd y cyfeiriad cywir i'r trydydd sector yng Nghymru. Am fod y cydweithredu'n ddarniog ac wedi ei seilio i raddau mawr ar gryfder perthnasoedd unigol, mae dymuniad am gydweithredu ehangach o fewn strwythurau y cytunwyd arnynt, yn cynnwys cydweithredu ag asiantaethau statudol a, lle bo'n briodol, y sector preifat ar y lefel lleol. Ystyriwyd bod defnyddio themâu oedd yn cael yr effaith gref o uno yn un ffordd bosibl o ailadrodd yr undod a gafwyd drwy gyfrwng yr argyfwng a grëwyd gan y pandemig.

## Casgliadau

Roedd yr wyth cronfa'n cyfrif am gyfran sylweddol o'r cyllid ar gyfer yr argyfwng Covid-19 oedd ar gael i sefydliadau trydydd sector yng Nghymru a chyrhaeddodd sefydliadau amrywiol. Mae boddhad y buddiolwyr gyda'r prosesau grant yn uchel. Mae'r cyfeiriad at y ffaith bod cymorth ar gael lle mae ei angen yn awgrymu ymhellach bod y seilwaith cymorth trydydd sector oedd yn bodoli'n barod, yn cynnwys y Cynghorau Gwirfoddol Sirol, wedi bod yn llwyddiannus.

Roedd yr wyth cronfa'n cynnig ateb hanfodol i sefydliadau trydydd sector ac unigolion/cymunedau bregus. Y pryderon allweddol i'r sefydliadau buddiolwyr oedd parhad, addasiad ac ehangiad y gwasanaeth. Roedd y gallu i fuddsoddi mewn offer a chyfalaf gweithio ochr yn ochr â chadw staff yn ffactorau galluogi allweddol. Mae'n amlwg bod y cyllid wedi helpu i gadw sefydliadau trydydd sector yn gweithredu er mwyn eu galluogi i gefnogi eu cymunedau lleol ac, i lawer ohonynt, roedd wedi sicrhau eu goroesiad.

Mae amrywiaeth o sefydliadau sy'n canolbwyntio ar wahanol broffiliau buddiolwyr wedi elwa o'r hyn sy'n ymddangos yn gyfran briodol o'r cyllido o dan yr wyth cynllun grant. Yn unol â'r ddealltwriaeth gyffredinol o'r heriau a grëwyd gan y pandemig, y meysydd thematig a elwodd fwyaf o bell ffordd o'r meintiau mwyaf o gyllido oedd iechyd, gofal cymdeithasol a lles a chymuned. Roedd gwasanaethau mwy penodol, fel iechyd meddwl, dosbarthiad bwyd, trais domestig, neu ddigartrefedd wedi cyfrif am swm ychydig llai o'r cyllido cyfan a byddant wedi eu hymwreiddio mewn dulliau trosfwaol o dan y ddau benawd uchod.

Roedd cytundeb eang rhwng y rhanddeiliaid ei bod hi'n allweddol osgoi niwed strwythurol i'r sector yn wyneb yr her ddigynsail hon a bod angen cyfuno hyn gydag ymateb graddol i'r argyfwng ac i adferiad. Roedd hi'n hanfodol ymateb yn gyflym ac ystyriwyd bod 'meddylfryd cytûn' yn bwysicach na phroses. Roedd rhannu data'n anffurfiol yn helpu cyllidwyr unigol i gael syniad eang o gyfraniadau pobl eraill.

wavehill™

social and economic research  
ymchwil cymdeithasol ac economaidd

01545 571711  
wavehill@wavehill.com  
wavehill.com

